**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorwyr Meirick Davies, Alice Jones a Huw Jones gysylltiad personol gydag eitem 5 ar y rhaglen.<br><br>Datganodd y Cynghorwyr Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Dewi Owens, Merfyn Parry, Arwel Roberts, David Smith, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams a Huw Williams gysylltiad personol gydag eitemau 5, 6 a 7 ar y rhaglen. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mawrth 2015 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | YSGOL LLANFAIR AC YSGOL PENTRECELYN | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol ardal newydd ar y ddau safle presennol;*<br><br>*(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i Gyngor Sir Ddinbych gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016; ac i'r Eglwys yng Nghymru sefydlu Ysgol Ardal Wirfoddol a Reolir newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016, ac*<br><br>*(c) nodi'r opsiwn i rieni wneud cais i anfon eu plant i Ysgol Pen Barras fel ysgol arall pe baent yn dymuno i'w plant aros o fewn ysgol Categori 1.* |
| **6** | YSGOL RHEWL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cau Ysgol Rhewl, a* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *(b) cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol i gau Ysgol Rhewl ar 31 Awst 2017 gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Ysgol Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agor yr adeiladau ysgol newydd.* |
| **7** | YSGOL LLANBEDR | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cymeradwyo cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer y cynigion i gau Ysgol Wirfoddol a Reolir Llanbedr ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion presennol i Ysgol Wirfoddol a Reolir Borthyn, yn dibynnu ar ddewis y rhieni.* |
| **8** | ADRODDIAD CYLLID A DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*<br><br>*(a) nodi cyllidebau ac arbedion 2015/16, a*<br><br>*(b) cymeradwyo'r cynigion i gynyddu gwariant ar gynnal a chadw priffyrdd o £800k y flwyddyn a chadarnhau'r rhagdybiaethau a nodir yn y Cynllun.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD** nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **10** | CONTRACT PFI - Y DIWEDDARAF | ***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf.* |